Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd

12 Medi 2018

Amserlen adrodd ar y gyllideb ddrafft

Annwyl Elin

Ymhellach i'ch llythyr ar 16 Gorffennaf 2018 ynghylch amserlen y gyllideb 2019-20, byddem yn ddiolchgar pe gellid ystyried rhoi estyniad o wythnos i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Yn dilyn y digwyddiadau trasig yr hydref diwethaf, cawsom estyniad o un wythnos i ystyried y gyllideb ddrafft, ac roedd hyn yn hynod ddefnyddiol gan ei fod yn ein galluogi i graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y diwrnod ar ôl cyhoeddi Cyllideb y DU. Caniataodd hyn i'r Pwyllgor ystyried yn fyr unrhyw arian neu doriadau ychwanegol yng Nghyllideb y DU ac unrhyw newidiadau i drothwyon neu gyfraddau treth.

Er nad yw dyddiad Cyllideb y DU eleni yn hysbys eto, mae'n debygol y bydd dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Tachwedd 2018 yn golygu na all y Pwyllgor ystyried cyllideb y DU, ac nid yw'n ddelfrydol oherwydd yr effaith y gallai hyn ei chael ar y gyllideb derfynol.

Hoffem, felly, ofyn am estyniad o wythnos i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Cofion cynnes

Aelodau'r Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565